ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru

# **Rhieni a gofalwyr yng Nghymru,** rydym angen eich barn!

**Rydym yn eich gwahodd chi i gwblhau'r ymgynghoriad hwn er mwyn rhannu eich barn ar sut y bydd ysgolion ar draws Cymru yn addysgu disgyblion 14 i 16 oed.**

Bydd eich adborth yn helpu i lunio fersiwn derfynol y Canllawiau Dysgu 14 i 16 a gyhoeddir yn ystod tymor yr haf hwn. Helpwch ni i wella cefnogaeth i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11, **gan sicrhau addysg gynhwysfawr sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau, cymwysterau, a'u gyrfaoedd yn y dyfodol.** Ein nod yw i bob person ifanc ragori fel dysgwr gydol oes, gyda'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth hanfodol sydd eu hangen i lwyddo.











# Mae addysg yn newid

**Yng Nghymru, Cenhadaeth ein Cenedl yw gosod safonau a dyheadau uchel i bawb.**

Cyflwynwyd Cwricwlwm i Gymru, i gefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion iach, ymgysylltiol, mentrus ac egwyddorol - yn barod i fyw bywyd cyflawn yn y gymdeithas a gwaith.

Yn 2022 dechreuom gyflwyno'r dull newydd hwn o addysgu, ac o fis Medi 2026 bydd pob plentyn yn dysgu o fewn Cwricwlwm Cymru.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr 3-16 oed, ond gwyddom fod y gofynion ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed yn wahanol i'r rhai ar gyfer dysgwyr iau. Bydd dysgwyr yr oedran hwn yn ystyried eu hopsiynau mewn perthynas â chymwysterau a'r cyfle i arbenigo, yn ogystal â nodi a dechrau gwireddu eu llwybrau unigol.

Gall fod llawer o ddewisiadau i bobl ifanc ar ddiwedd blwyddyn 11 wrth iddynt drosglwyddo i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Rydyn ni eisiau gwneud eu trosglwyddiad i fywyd ar ôl blwyddyn 11 yn haws, gyda chymorth i oresgyn unrhyw rwystrau ar eu taith.

## Cymwysterau Cenedlaethol Newydd 14 i 16

Er mwyn cefnogi Cwricwlwm i Gymru, mae Cymwysterau Cymru[2] yn diwygio cymwysterau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y cynnig llawn o gymwysterau 14 i 16, gan gynnwys TGAU, fel y nodir yn eu rhaglen ddiwygio Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Bydd cymwysterau TGAU newydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mlwyddyn 10 o fis Medi 2025.

Am fanylion llawn ac amserlen, ewch i dudalen we Cymwysterau Cenedlaethol 14 i 16.

1. Adroddiad Hefin David sy'n amlinellu rhwystrau ym maes Pontio i Gyflogaeth
2. rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru

# Nodweddion allweddol y Canllawiau Dysgu 14 i 16





**Rydym am i bob dysgwr sy'n cwblhau ei addysg yn 16 oed gyda'r sgiliau, yr wybodaeth, a'r ddealltwriaeth ehangach sy'n eu galluogi i ddatblygu'r galluoedd, yr ymagweddau a'r priodoleddau a ddisgrifir yn y pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn hefyd yn cefnogi pontio dysgwyr ôl-16.**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig bod dysgwyr ym mlwyddyn 10 ac 11 yn parhau i elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys, gyda dysgu'n parhau ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad ac yn elfennau gorfodol y cwricwlwm, ni waeth beth fo'u dewisiadau astudio ar gyfer cymwysterau.

**Nod yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 yw cefnogi hyn.** Mae'n amlinellu'r cwricwlwm y bydd gan bob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 hawl iddo. Yn arbennig, byddant yn cael cynnig addysgu a dysgu ar draws y pedair cydran ganlynol:

- **Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd** - yr addysg llythrennedd (darllen ac ysgrifennu) a rhifedd (mathemateg) orau posibl cyn iddynt orffen yr ysgol.
- **Cymwysterau i annog ehangder** - dewisiadau eang a chytbwys, gan gynnwys cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol a seiliedig ar sgiliau, ar bob lefel briodol. Bydd hyn yn cynnwys cymhwyster yn y gwyddorau. Dylai pob dysgwr hefyd barhau i gael y cyfle i astudio tuag at gymhwyster heriol ac uchelgeisiol yn y Gymraeg – i gyrraedd nodau a osodwyd gan Cymraeg2050.
- **Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y Cwricwlwm** - ym mhob maes ac elfennau gorfodol (gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg), ni waeth beth yw eu dewis gymwysterau. Ni fydd pob profiad dysgu yn arwain at gymhwyster ffurfiol; fodd bynnag, bydd dysgu ehangach ar draws y cwricwlwm yn annog dysgu dyfnach ac annibyniaeth.
- **Cynllunio ôl-16** - amser penodol i ganolbwyntio ar y camau nesaf a deall yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt wrth iddynt symud i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth, ar draws pob agwedd ar fywyd. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fyfyrio ar eu cryfderau, meysydd gwella, nodau ac uchelgeisiau, a fydd yn gosod safonau uchel ac yn datblygu effeithiolrwydd dysgwyr.

**Bydd yr hawl yn arwain ysgolion wrth ddewis y cymwysterau y maent yn eu cynnig i ddysgwyr blwyddyn 10 ac 11. Bydd angen darparu cynnig heriol ac uchelgeisiol ar gyfer pob dysgwr, a rhoi cyfrif am anghenion unigol.**

**Bydd dysgwyr hefyd yn cael eu cefnogi gan eu dysgu 14 i 16 i:**
- Ddeall yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael iddynt mewn cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ôl-16.
- Deall goblygiadau eu dewisiadau o fewn a thu hwnt i addysg orfodol.
- Cael profiadau gwaith dilys ac ystyrlon.
- Gwneud y dewisiadau cywir ar gyfer eu llwybr unigol.

# Draw atoch chi...

**Mae eich barn yn hollbwysig i sicrhau bod ein system addysg yn diwallu anghenion pob dysgwr ar draws Cymru. Rydym yn eich gwahodd i rannu eich barn ar yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 sy'n nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11 o fewn Cwricwlwm i Gymru.**

**C1.** Ydych chi'n deall beth ddylai ysgol fod yn ei gynnig i'ch plentyn ym mlynyddoedd 10 ac 11?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Sylwadau ☐

**C2.** A ydych yn cytuno â Hawl i Ddysgu 14 i 16 Llywodraeth Cymru?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Sylwadau ☐

**C3.** A yw'r hawl yn cynnwys popeth sy'n bwysig i'ch plentyn yn 14 i 16 oed?

Ydy ☐ Nac ydy ☐ Sylwadau ☐

**C4.** A oes yna bethau sy'n bwysig i ddysgu eich plentyn yn 14 i 16 oed nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr hawl, ac os felly beth?

Sylwadau ☐

**C5.** A ydych yn cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg?

Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐
Sylwadau ☐

**C6.** A ydych yn cytuno bod y polisi yn hyrwyddo cyfleoedd i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig (anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol)?

Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐
Sylwadau ☐

## Sut i ymateb

**Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 8 Mai 2024, ar un o'r ffurfiau a ganlyn:**

**Ar-lein:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/YCDAX2/?lang=888452

**E-bost:** lawrlwythwch y ffurflen ymateb cwblhewch a dychwelyd i:
**Dysgu.14-16.learning@llyw.cymru**

**Post:** lawrlwythwch y ffurflen ymateb, cwblhewch a dychwelyd i:
**Polisi Gwella Ysgolion a Chymwysterau**
**Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

## Y camau nesaf

Bydd y canllawiau hyn yn helpu ysgolion i deimlo'n hyderus gyda'u cwricwlwm dros y cyfnod pontio hwn a thu hwnt.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau terfynol a'r deunyddiau ategol yn nhymor yr haf, i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau i ddechrau addysgu dysgwyr blwyddyn 10 o fewn Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2025.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49368,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg